OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 No. 3235

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw'r person sy'n cadw, neu sy'n meddu ar, neu sydd â rheolaeth dros, aderyn;

ystyr "CITES" ("*CITES*") yw'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl(**1**);

ystyr "marc CITES" ("*CITES marking*") yw marc sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 5(3);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;

ystyr "modrwy" ("*ring*") yw unrhyw fodrwy neu fand ar gyfer modrwyo aderyn.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn gyfeiriad at unrhyw aderyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 4 i'r Ddeddf ac y mae unrhyw berson yn ei gadw, yn meddu arno neu'n ei reoli.

(**1**) Fe'i llofnodwyd yn Washington ar 3 Mawrth 1973.